

Naw Ffynnon/Solfach

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.1 milltir (5.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Solfach 411, *Pâl Gwibio 400 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM785245

Mae hanes a natur yn cyfarfod yn nhwnneli a chwarelau Naw Ffynnon...

Chwiliwch am: Adar y môr.

Mae gan Naw Ffynnon nifer o chwarelau sydd ddim yn cael eu defnyddio sydd, am eu bod nhw'n dal yr haul, yn lloches ar gyfer amrywiaeth o blanhigion a phili-palaod. Mae'r arfordir yn frith o ogofau ac ym Mhorth-y-Rhaw, cildraeth bach, mae yna gaer benrhyn gwych gyda chlogwyni serth i'r dwyrain. Yn Aberllong gellir gweld olion tri cwch tynnu a ddifrodwyd gan y moroedd garw ar eu taith o Lerpwl yn 1986.

Dywedir mai Ogof Tybaco yw'r fynedfa i dwnnel a arferai arwain o'r ogof i ffermdy Llanunwas er mwyn smyglo contraband i'r lan.

Cerfiwyd cwm Solfach gan ddŵr tawdd rhewlifol ar ddiwedd yr Oes Iâ diwethaf, pan gododd lefelau'r môr a boddi gwaelod y cwm i ffurfio'r porthladd enwog.

Mae lan Meopham, Parcmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Gellir gweld olion hen gwch tynnu a olchwyd i'r lan o'r rhan o'r llwybr sy'n pasio'r Crud (neu'r Cradle). Mae yna hanes i ardal Ogof y Smyglwyr, a ddefnyddiwyd ar un adeg i fasnachu

tybaco. Ardal wych i weld pili-palaod a gwas y neidr."

Cymeriad: Arfordir garw, caeau a da byw, gweddol wastad.

